O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 242 (Cy.46)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tŷ Cerrig, Garndolbenmaen, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*24 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*28 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tŷ Cerrig, Garndolbenmaen, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 201-

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 28 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 yn Nhŷ Cerrig yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.